**ATODIAD 1**

# PARTNERIAETH DDYSGU GWYNEDD AC YNYS MON
# DATBLYGIAD Y PROSIECT – PRIF GERRIG MILLTIR

## 1. Cynllun Braenaru Daearyddol

Cynhaliodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei ymgynghoriad ar y cynllun *Braenaru Daearyddol* ar gyfer newid trefniadau dysgu ol-16 yn ardal Arfon o Wynedd ac Ynys Mon.

Yn allweddol mae hyn yn sefydlu am y tro cyntaf y syniad o weithio ar draws ALl i ddelifro gwell gwasanaethau ym maes dysgu a sgiliau.

Daeth yr ymgynghoriad ardal i ben yn Chwef 2007, gyda dewis opsiwn yr ardal o gwmpas Consortiwm Ffurfiol a chydweithio er mwyn cynllunio a delifro'r cwricwlwm oed 16-19.

Amlygwyd hefyd yr angen i ymbymryd â gwaith penodol er mwyn deall yr hyn olygir wrth gonsortiwm a gweithio ar y cyd o ran addysg a hyfforddiant ôl-16, ac i ddiffinio ei hyd a'i led.

## 2. Cyfeiriad Strategol Newydd ar gyfer Dysgu Ol-16

Llywodraeth Cynulliad Cymru yn sefydlu ei gyfeiriad newydd ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-16 yng Nghymru trwy 2 ddogfen strategol:

- *Trawsnewid Darpariaeth Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru – Delifro Sgiliau Sy'n Gweithio i Gymru (Medi 2008)*
- *Y Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2008.*

Mewn gair, mae'r dogfennau hyn yn gosod yr agenda genedlaethol ar gyfer trawsnewid dysgu ol-16, trwy:

- Y gofyn i seydlu partneriaethau dysgu ardal;
- Ffocws ar gydweithio yn hytrach na chystadleuaeth, ac felly yn ennyn effeithlonrwydd trwy leihau dyblygu gwastraffus – ar draws sectorau a darparwyr ôl-16;
- Gyrru safonau yn uwch;
- Cynyddu dewis cyrsiau ar gyfer dysgwyr, yn academaidd a galwedigaethol, trwy Gwricwlwm Ardal (gan osod isafswm statudol o 30 cwrs, 5 galwedigaethol);
- Sicrhau cydweddiad agos rhwng y cwricwlwm ardal a gofynion y farchnad lafur leol – gofyn ar yr ysgolion a'r colegau.

## 3. Ymchwil Gweithredol Cychwynnol – Adnabod y gofynion a gyfer cydweithio llwyddiannus (2008-2009)

Comisiynwyd y gwaith hwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i astudio ac adnabod agweddau ymarferol cydweithio fyddai hefyd yn berthnasol ar gyfer ardaloedd eraill, gyda Gwynedd ac Ynys Môn yn cynnig ei hun fel yr ardal astudiaeth. Ymgymerwyd â'r gwaith gan CYNNAL.

Canfyddiad pwysig gan y gwaith hwn oedd yr angen i gydweithio gael ei sefydlu, os am lwyddo, ar sail ffurfiol a mwy sefydlog yn hytrach na gweithredu ar sail ad-hoc neu ewyllys da. Nododd yr angen am drefniant gyda sail gyfeithiol, a gyda thim proffesiynol traws-ffiniau ALl i gefnogi consorrtiwm o'r fath.

**4. Sefydlu Partneriaeth Ddysgu Gwynedd ac Ynys Mon (2009)**

Sefydlwyd y Bartneriaeth yn 2009 mewn ymateb i'r agenda strategol genedlaethol newydd, ac yn benodol i ddatblygu model cydweithredol ar gyfer yr ardal, gan adeiladu ymhellach ar y gwaith wnaed ar gydweithio yn dilyn y cynllun *Braenaru Daearyddol* – gyda'r ardal bellach wedi ei chadarnhau fel y cyfan o Wynedd ac Ynys Môn.

Mae aelodaeth y Bartneriaeth ar sail gynychioliadol, ac wedi ei thynnu o'r Penaethiaid ysgolion uwchradd a'r colegau AB yn ogystal â'r ddau Awdurdod Lleol a CYNNAL.

**5. Rhaglen Strategol Amlinellol (RSA/SOP) – Gosod y Cyfeiriad ar gyfer yr Ardal (2009-2010)**

Yn dilyn yr eglurdeb ar y cyfeiriad strategol cenedlaethol (2008) datblygwyd RSA gan y Bartneriaeth a'i gyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru ym Mawrth 2009.

Ymgymerodd y Bartneriaeth wedyn ag astudiaeth ddichonoldeb ac opsiynau (wedi ei hariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru) er mwyn adnabod y mathau o opsiynau o fewn c*ontinuum* y consortiwm/cydweithio fyddai ar gael ac yn ddichonadwy i ardal Gwynedd ac Ynys Môn. Ymgymerwyd a'r gwaith hwn gan ymgynghorwyr allanol, FE Associates, a'i gwblhau yn Ebrill 2010.

Amlygodd yr astudiaeth yr angen am drefn strategol ffurfiol gan gynnig y syniad o Gorff Cynllunio a Chomisiynu.

Fel rhanddeiliaid allweddol ac aelodau o'r Bartneriaeth barn y Penaethiaid Uwchradd oedd nad corff allanol ar wahân fyddai'n gwasanaethu'r ardal orau, ac y byddai'r amcan polisi o gydweithio llawn ar draws yr holl gyrff darparu yn cael ei yrru orau gan fodel cydweithio amgen.

Roedd llais y rhanddeiliaid yn bwysig i'r Bartneriaeth ac fe ymgymerwyd â gwaith pellach ar gydweithio a phrotocolau ar ei gyfer gan y Penaethiaid Uwchradd trwy eu cyfarfodydd proffesiynol, a chyfarfodydd gyda'r ddau Awdurdod Lleol, ac fe gomisiynwyd astudiaethau penodol pellach gan y Bartneriaeth er mwyn cefnogi eu gwaith.

**6. Achos Strategol Amlinellol (ASA/SOC) (2010-2011)**

Cafodd cyfeiriad strategol ar gyfer yr ardal, gyda gwybodaeth yr astudiaethau rhagflaenol, ei ffurfioli trwy gyfrwng yr ASA gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ym Mehefin 2011.

Darparwyd ymgynghorwyr allanol gan Lywodraeth Cymru i bob ardal o dan y broses hon er mwyn sicrhau cadernid, ac fe roddwyd yr opsiynau terfynol o ran ffurf y cydweithio trwy brofion llym *Model 5 Achos y Trysorlys.* Y casgliad oedd cydweithio ffurfiol gyda threfn gorolwg strategol.

**7. Gweithdy'r Bartneriaeth Ddysgu: Model Comisiynu Ôl-16 (Mehefin 2011)**

Edrychodd y gweithdy'n fanwl ar y gofyn polisi i newid, y data ar gyfer yr ardal yn nhermau rhagamcanion niferoedd dysgwyr, y dyblygu grwpiau/cyrsiau cyfredol, y cyllid Ôl-16 yng Ngwynedd ac Ynys Môn a'r cyfleon economaidd gan gynnwys y sectorau twf a gwerth uchel ragwelir yn lleol.

Yn erbyn y cefndir hwn, cadarnhaodd y Gweithdy ddyheadau'r ASA o ran sut byddai llwyddiant yn edrych yng Ngwynedd ac Ynys Môn, ac fe aeth at galon siap trefn gydweithio gyda gorolwg strategol a'r amodau angenrheidiol er mwyn gwireddu'r llwyddiant hwnnw.

Datblygwyd y Model Ôl-16 fel canlyniad i'r Gweithdy.

**8. Ymateb Llywodraeth Cymru i ASA'r Ardal**

Derbyniwyd yr ymateb cychwynnol yn Awst 2011, gyda gofyn am rhyw gymaint o eglurhad pellach. Yn dilyn atebion dderbyniwyd oddi wrth y Bartneriaeth, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru eI cHefnogaeth i'r cyfeiriad strategol a'r bwriadau ar 29 Tachwedd 2011.

**9. Cyfarfod gyda holl Benaethiaid Uwchradd Gwynedd ac Ynys Môn (Ionawr 2012)**

Cynhaliwyd cyfarfod o holl Benaethiaid uwchradd y ddwy sir ar 30 Ionawr 2012. Rhoddwyd cefnogaeth gan y Penaethiaid uwchradd i gyd i'r Model Ôl-16, y cais ESF a hefyd i gydweithio ymhellach ar luniO'r MD fydd yn gwasanaethu fel y ddogfen gytundebol ar gyfer y drefn gydweithio.

**10. Bwrdd Gwasanaethau Lleol (Chwefror 2012)**

Trafodwyd y cynigion ar gyfer model cydweithio lleol gyda threfn gorolwg strategol, a'r cais ESF, yng nghyd-gyfarfod Byrddau Gwasanaethau Lleol Gwynedd ac ynys MÔn ar 23 chwefror 2012, gan dderbyn cefnogaeth lwyr. Mynegodd y BGLl bwysigrwydd y gwaith trwy ei ddymuniad i weithio'n agos gyda'r posiect, ac i dderbyn adroddiadau cynnydd rheolaidd.

**11. Cyfarfod gyda holl Benaethiaid Uwchradd Gwynedd ac Ynys MÔn (11 Gorffennaf 2011)**

Cafwyd trafodaeth ar Fodel Consortiwm diwygiedig, ac ar gynnwys drafft y Memorandwm Dealltwriaeth fel y ddogfen gytundebol fydd yn ymrwymo'r partneriaid i gyd i'r Consortiwm.

**12. Cyflwyno'r Achos Busnes i WEFO (Cais ESF) (Awst 2012)**

Yn dilyn y gwaith datblygu manwl a'r trafodaethau gynhaliwyd, cwblhawyd y cam Achos Busnes o'r cais Ewropeaidd a'i gyflwyno i WEFO.

**13. Cyfarfod Cynrychiolwyr yr holl Gyrff Llywodraethol (24 Hydref 2012)**

Trafodwyd manylion y Model Consortiwm diwygiedig, y Cylch Cynllunio, Gweithredu a Monitro a'i Gamau ynghyd â'r Memorandwm Dealltwriaeth drafft, ac fe gytunwyd ar amserlen ar gyfer ymdrin ag unrhyw gwestiynnau ac ar gyfer dod i benderfyniad.

**14. Cyfarch Cwestiynnau'r Cyrff Llywodraethol (Rhagfyr 2012)**

Derbyniwyd amrywiaeth o gwetiynnau, a'u hateb erbyn Nadolig 2012, gydag ymateb positif iawn gan gyrff llywodraetholysgolion a Grwp Llandrillo-Menai.

**15. Lythyrau o Fwriad**

Derbyniwyd llythyrau o fwriad i ymuno â'r Consortiwm yn ionawr 2013.

**16. Cyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd (19 Chwefror 2013)**